# Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date of publication: Dydd Llun, 19 Awst 2019

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas: 2019/32 - Menter Plannu Coed Cymru**

**Gofynnodd y Cynghorydd C. Evans:**

Fel rwy'n siŵr eich bod yn gwybod, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan yn ddiweddar gynllun £60 miliwn i blannu 10 miliwn o goed, gan gynnwys 130,000 o goed dinesig yn Lloegr. Fel rydych yn gwybod, bydd coed yn chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o leihau allyriadau carbon deuocsid, sy'n cyfrannu'n fawr at newid yn yr hinsawdd.

Gan fod gan goed rôl hanfodol yn y gwaith o gydbwyso lefelau CO2 a lefelau ocsigen, mae datgoedwigo eang ledled y byd hefyd wedi cael effaith negyddol gan ryddhau mwy o CO2 i'r awyrgylch.

Allech chi ddweud wrthyf a ydych wedi lobio eich cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am fenter plannu coed debyg yng Nghymru? Beth oedd y canlyniad? Oes gan eich gweinyddiaeth unrhyw gynlluniau i annog plannu coed yng Nghasnewydd? Os felly beth yw'r cynlluniau hynny?

**Atebodd y Cynghorydd Jeavons:**

Mae gan Gasnewydd fwy na 2 miliwn o goed ac mae'n mynd ati i annog plannu 2 goeden am bob 1 pan fo coed y Cyngor wedi marw neu wedi dod yn beryglus. Mae Polisïau Coed a Chanllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Coed yn bodoli i ddiogelu coed neu i leihau effaith eu colli.

Hefyd hyrwyddir plannu coed cymunedol a phreifat ledled y Ddinas a rhoddir cyngor a chymorth yn weithredol ym mhob rhan o'r Awdurdod Lleol.